



Eich llais chi mewn | Your voice in health  
iechyd a gofal and social care

# Adroddiad Blynnyddol

## a Chyfrifon

**2022-23**

## Cynnwys

<b>Adroddiad Perfformiad</b>	3
<b>Adroddiad Atebolrwydd</b>	7
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	
• Adroddiad y Cyfarwyddwyr	7
• Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	12
• Datganiad Llywodraethu	14
Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol	18
Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	22
 <b>Datganiadau Ariannol</b>	
• Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	28
• Datganiad Sefyllfa Ariannol (y fantolen)	29
• Datganiad ar Lifoedd Arian Parod	30
• Datganiad ar Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr	31
Nodiadau ar y Cyfrifon	32

## Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon

Mae'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FreM) 2022-23. Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn cynnwys llai o ofynion adrodd a datgelu, sy'n adlewyrchu nad oedd Llais yn weithredol yn 2022/23.

## Adroddiad Perfformiad

### Trosolwg

Mae'r trosolwg perfformiad yn nodi mai pwrpas allweddol y Corff Llais y Dinesydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (a elwir yn weithredol fel Bwrdd Llais ac y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel Bwrdd Llais) yn 2022/23 oedd sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (a elwir yn weithredol fel Llais – eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol, ac y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel Llais).

### **Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru**

Arweiniwyd ac ariannwyd sefydlu Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru gan Lywodraeth Cymru.

Fe wnaeth Lywodraeth Cymru ffurfio Rhaglen Weithredu Corff Llais y Dinesydd (CLID) (y cyfeirir ati yn y ddogfen hon fel 'y rhaglen') i fwrw ymlaen â sefydlu Llais. Roedd y rhaglen yn cael ei harolygu gan Fwrdd Gweithredu CLID. Cadeiriwyd y

Bwrdd Gweithredu gan Uwch Swyddog Cyfrifol (USC) y rhaglen, yr Athro Chris Jones.

Tra mai'r Uwch Swyddog Cyfrifol oedd yn gyfrifol am sefydlu'r corff newydd, dirprwywyd y gwaith o reoli'r rhaglen o ddydd i ddydd i Bennaeth Tîm y Rhaglen Weithredu CLID, gyda chymorth yr amrywiol ffrydiau gwaith.

Cadeiriwyd y ffrydiau gwaith hyn gan Gyfarwyddwyr Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a phartïon eraill â diddordeb. Eu rôl oedd darparu cyngor arbenigol, sicrwydd ac arolygu'r gwaith o sefydlu swyddogaethau a chynhyrchion craidd y sefydliad, er mwyn sicrhau y gallai Llais ddod yn gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2023.

Sefydlwyd Llais yn gyfreithiol ym mis Ebrill 2022, yn dilyn gorchymyn cychwyn rhif 1 o Ddeddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y cyfeirir ati yn y ddogfen hon fel 'y Ddeddf'). O dan y Ddeddf crëwyd Llais fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC). Daeth Llais yn weithredol ar 1 Ebrill 2023, pan drosglwyddwyd yr holl staff, asedau, rhwymedigaethau (contractau) o Fwrdd lechyd Addysgu Powys a Gweinidogion Cymru (a oedd yn cynnal ac yn darparu contractau cyfreithiol yn y drefn honno) i Llais, ar ran yr hen Gynghorau lechyd Cymuned yng Nghymru a'r Bwrdd Cynggorau lechyd Cymuned yng Nghymru.

Sefydlwyd Bwrdd Llais yn ffurfiol ym mis Hydref 2022, ar ôl penodi ei Gadeirydd, Is-gadeirydd, 6 Aelod Anweithredol arall (AA) a'i Brif Weithredwr Dros Dro. Sefydlwyd y Bwrdd cyn i'r corff ddod yn weithredol, er mwyn gwneud rhai penderfyniadau allweddol mewn egwyddor yn ymwneud â sefydlu Llais, gan gynnwys penderfyniadau a oedd yn pennu cyfansoddiad y corff.

Rhwng mis Hydref 2022 ac 1 Ebrill 2023, cynhaliwyd cyfarfodydd Bwrdd ffurfiol bob mis. Yn ei gyfarfod cyntaf yn gyhoeddus ar 28 Ebrill 2023, cadarnhaodd Bwrdd Llais yn ffurfiol bob penderfyniad a wnaed yn ystod y cyfnod sefydlu rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023.

Roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan Fwrdd Llais rôl ddiffiniedig, ond cyfyngedig, yn ystod y cyfnod sefydlu hyd at 31 Mawrth 2023 ac, yn wyneb y pwerau cyfyngedig oedd ar gael i Llais yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd Bwrdd Llais a'r Bwrdd Gweithredu CLID yn cydredeg ac yn cydweithio i sefydlu'r corff.

Er bod gan Fwrdd Llais rôl ddiffiniedig, ond cyfyngedig, yn ystod y cyfnod sefydlu hyd at 31 Mawrth 2023, canolbwytiodd ar ddatblygu a chyhoeddi, yn gynnar ym mis Ebrill 2023, ei flaenoriaethau cychwynnol yn "Ein Cynllun 100 Diwrnod". O 1 Ebrill 2023, cynhaliodd Llais ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd, gan wrando ar bobl a'u cynrychiolwyr sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymunedau ledled Cymru ar weledigaeth strategol, cenhadaeth, gwerthoedd a ffyrrd o weithio Llais.

Yn ystod y cyfnod sefydlu, yr Athro Chris Jones, USC, oedd yn gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau a wnaed fel rhan o'r rhaglen, gan gynnwys lle'r oedd goblygiadau ariannol i'r penderfyniadau hynny ar gyfer 2022-23, a dirprwywyd cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu iddo am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023.

Roedd Bwrdd Llais yn rhan o'r holl benderfyniadau rhaglen sefydlu perthnasol a phriodol o fis Hydref 2022, drwy fecanweithiau llywodraethu'r rhaglen. Gofynnwyd i Fwrdd Llais wneud penderfyniadau mewn egwyddor, i sicrhau aliniad strategol lle'r

oedd penderfyniadau'n effeithio ar gyfansoddiad y sefydliad, a lle byddai penderfyniadau'n effeithio ar gyllideb y blynnyddoedd i ddod.

Mae'r Ddeddf yn nodi mai Prif Weithredwr Llais yw Swyddog Cyfrifyddu'r sefydliad. Yn ystod y cyfnod sefydlu (Ebrill 2022 – Mawrth 2023), gwnaed yr holl benderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau gwariant, o fewn y rhaglen sefydlu ac felly roedd yr USC yn parhau i fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau.

Yr Athro Chris Jones

Uwch Swyddog Cyfrifol, Bwrdd Gweithredu CLID

Swyddog Cyfrifyddu, Llais

Dyddiad: 22 Tachwedd 2023

Alyson Thomas,

Prif Weithredwr, Swyddog Cyfrifyddu, Llais (o 1 Ebrill 2023)

Dyddiad: 22 Tachwedd 2023

## Adroddiad Atebolwyd

### Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae Atodlen 1 o Ddeddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 yn nodi aelodaeth y Bwrdd fel a ganlyn:

- Cadeirydd
- Is-gadeirydd
- O leiaf 6, ond dim mwy nag 8, Aelod Anweithredol
- Prif Weithredwr

### Aelodaeth y Bwrdd

Aelod	Swydd	Cyfnod Swydd
Medwin Hughes	Cadeirydd	1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2026
Alyson Thomas	Prif Weithredwr Dros Dro	Penodwyd 3 Hydref 2022
Grace Quantock	Dirprwy Gadeirydd	6 Meh 2022 – 5 Meh 2025
Bamidele Adenipekun	Aelod Anweithredol	1 Gorff 2022 – 30 Meh 2026
Barbara Harrington	Aelod Anweithredol	1 Gorff 2022- 30 Meh 2024
Jack Evershed	Aelod Anweithredol	1 Gorff 2022- 30 Meh 2024
Jason Smith	Aelod Anweithredol	1 Gorff 2022- 30 Meh 2024
Karen Lewis	Aelod Anweithredol	1 Gorff 2022 – 30 Meh 2026
Rajan Madhok	Aelod Anweithredol	1 Gorff 2022 – 30 Meh 2026

O 1 Ebrill 2023, penodwyd Alyson Thomas yn Brif Weithredwr a Swyddog

Cyfrifyddu parhaol ar Llais.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Bwrdd raniad rhyw o 55.5% (5) o fenywod, a 44.5% (4) o ddynion, roedd 22.2% (2) o'r aelodau o gefndir Du a Lleiafrifoedd Ethnig, a datganodd 11% (1) anabledd.

## Datganiadau o Fuddiant

Caiff cofnod Datganiadau o Fuddiant aelodau'r Bwrdd ei gyflwyno a'i ddiweddar uym mhab cyfarfod Bwrdd ffurfiol. Mae hyn yn bodloni'r gofynion a nodir ym Mholisi Safonau Ymddygiad Llais. Mae'r Polisi yn nodi'r trefniadau sydd ar waith i reoli datganiadau o fuddiant, rhoddion, lletygarwch, taliadau cydnabyddiaeth a nawdd, ac mae'n nodi disgwyliadau ac yn darparu canllawiau ategol i'r holl staff, gwirfoddolwyr ac aelodau anweithredol.

Aelod Bwrdd	Buddiannau	
	Sefydliad	Swydd
<b>Medwin Hughes (Cadeirydd)</b>	Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Is-ganghellor
	The Tidal Lagoon Academy LTD	Cyfarwyddwr
	Academy of Sinology UK	Cyfarwyddwr
	University of Wales Trinity Saint David Investments Ltd	Cyfarwyddwr
	Ymddiriedolaeth y Drindod Dewi Sant	Cyfarwyddwr
	Welsh American Academy Enterprises Ltd	Cyfarwyddwr
	Eclectica Drindod Ltd	Cyfarwyddwr
	Coleg Prifysgol y Drindod (TCCF gynt)	Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr Elusen Coleg Prifysgol y Drindod
	Y Sefydliad Rhyngwladol ar gyfer Dialog Ryng-ffydd a Rhyng-ddiwylliannol	Cyfarwyddwr

	Gwasg Gregynog	Cyfarwyddwr ac Ymddiriedolwr yr Elusen
	Awen Wales Ltd	Cyfarwyddwr
	University of Wales: Innovations Centre Ltd	Cyfarwyddwr
	Elusen Prifysgol Cymru	Ymddiriedolwr
	Cwlwm Monduli	Ymddiriedolwr
	Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru	Cadeirydd a Chynrychiolydd
	Welsh National OPERA Cenedlaethol Cymru	Ymddiriedolwr
<b>Grace Quantock</b> (Dirprwy Gadeirydd)	Wye Valley NHS Trust	Aelod Anweithredol
	Gofal Cymdeithasol Cymru	Aelod Bwrdd Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau
	Trailblazing Wellness: Coaching and Consultancy	Sylfaenydd a Chyfarwyddwr
	Cyngor Seicotherapi'r DU	Cwnselydd Seicotherapiwtig Achrededig
	Cyngor Celfyddydau Cymru	Aelod Cyswllt
	Prifysgol De Cymru	Darlithydd yn y Gyfadran Addysg a Gwyddorau Bywyd ar yr MA lechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
	Llywodraeth Cymru	Uwch Aelod Panel Annibynnol
	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	Aelod Panel Annibynnol
	Inspired to Soar Ltd	Cyfarwyddwr
<b>Bamidele Adenipekun</b> (Aelod Anweithredol)	Canolfannau Cymorth Caner Maggie	Llysgennad
	Practice Solutions Limited yn cynnal prosiectau ar wella gofal cymdeithasol, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus	Aelod Cyswllt
	Cyflwyno gweithdai a chreu cynnwys pwrpasol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd – Addysg a Gwella lechyd Cymru,	Cyflenwr cofrestredig

	Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Macmillan	
	Health Education England	Cynghori ar y gwasanaeth – a grybwylwyd uchod
	Prifysgol Caerdydd – Iechyd ac Ymweld	Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd
	Anghydraddoldebau iechyd a lles yn y gweithle i gyrrf preifat a chyhoeddus	Ymgynghori
<b>Barbara Harrington</b> (Aelod Anweithredol)	Dim	
<b>Jack Evershed</b> (Aelod Anweithredol)	Hybu Cig Cymru	Aelod Anweithredol
	Evershed & Co	Partner
	Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub Borth	Cadeirydd
<b>Jason Smith</b> (Aelod Anweithredol)	Cymorth Cymru	Ymddiriedolwr
	Tai Taf	Aelod Anweithredol
	Pobl	Cyfarwyddwr Cymorth Cynorthwyol
<b>Karen Lewis</b> (Aelod Anweithredol)	Dim	
<b>Rajan Madhok</b> (Aelod Anweithredol)	Wirral University Teaching Hospitals NHS Foundation Trust	Aelod Anweithredol
	Cyfeillion AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	Ymddiriedolwr
	Canolfan Gerdd Williams Mathias	Ymddiriedolwr
	Peoples-praxis	Ymddiriedolwr
	Prifysgol Salford	Athro Anrhydeddus
	Indian Institute of Public Health, Shillong, India	Cyfadran Gynorthwyol
	RamaReflections	Cyfarwyddwr
<b>Alyson Thomas</b> (Aelod Gweithredol)	Dim	

## **Presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd**

Sefydlwyd Bwrdd Llais yn ffurfiol ym mis Hydref 2022, ar ôl penodi ei Brif Weithredwr Dros Dro.

Cynhaliwyd 6 chyfarfod Bwrdd ffurfiol, rhwng mis Hydref a 31 Mawrth 2023.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf dros ddua ddiwrnod, a bydd yn cael ei ystyried fel sesiynau ar wahân, er mwyn adrodd ar bresenoldeb aelodau'r Bwrdd.

### **Presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Bwrdd**

#### **Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Hydref 2022 - Mawrth 2023: 7**

Aelod	Swydd	Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd
Medwin Hughes	Cadeirydd	7
Alyson Thomas	Prif Weithredwr Dros Dro	7
Grace Quantock	Dirprwy Gadeirydd	5
Bamidele Adenipekun	Aelod Anweithredol	7
Barbara Harrington	Aelod Anweithredol	7
Jack Evershed	Aelod Anweithredol	7
Jason Smith	Aelod Anweithredol	6
Karen Lewis	Aelod Anweithredol	7
Rajan Madhok	Aelod Anweithredol	5

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, rwyf i, fel Swyddog Cyfrifyddu, wedi paratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, adroddiad blynnyddol a datganiad o gyfrifon ar y ffurf, ac ar y sail, a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF a Gweinidogion Cymru, y mae'r dogfennau hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Paratoir y cyfrifon er mwyn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac o'r gwariant net, y sefyllfa ariannol, llifoedd arian a newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben bryd hynny. Mae'r adroddiad blynnyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwys o polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Rwyf wedi cael fy mhenodi gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Llywodraeth Cymru, yn Swyddog Cyfrifyddu Llais am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023. Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir, ac am asedau Llais, fel y nodir yn y memorandwm - 'Managing Public Money' - a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, a 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod archwilwyr Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth hon. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Yr Athro Chris Jones

Uwch Swyddog Cyfrifol, Bwrdd Gweithredu CLID

Swyddog Cyfrifyddu, Llais

Dyddiad: 22 Tachwedd 2023

## Datganiad Llywodraethu

Roedd y Rhaglen Sefydlu CLID yn rhan o Raglen Weithredu Deddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, ochr yn ochr â phrosiectau i weithredu dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd, a sefydlu is-gadeiryddion statudol mewn Ymddiriedolaethau GIG.

O fewn y rhaglen ehangach, goruchwylwyd y Rhaglen Sefydlu CLID gan y Bwrdd Gweithredu CLID. Roedd gan y Bwrdd Gweithredu aelodaeth eang o blith rhanddeiliaid, gan gynnwys uwch staff ac aelodau bwrdd y Cynghorau lechyd Cymuned, ac yna cynrychiolwyr bwrdd CLID wrth iddynt gael eu penodi, yn bennaf cadeirydd Bwrdd CLID.

Yr Athro Chris Jones oedd yr USC ar gyfer Rhaglen Gweithredu'r Ddeddf, a rhoddodd sicrwydd ar gyflawniad i'r Bwrdd Goruchwyllo Strategol (SOB). Roedd Bwrdd Gweithredu ar wahân gan y prosiect i roi'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd ar waith, ond i gydnabod maint a chymhlethdod y Rhaglen Sefydlu CLID, roedd Chris Jones hefyd yn cadeirio'r Bwrdd Gweithredu CLID.

Er mwyn goruchwyllo'r Rhaglen Sefydlu CLID o ddydd i ddydd, cynhaliodd yr USC grŵp goruchwyllo o'r enw Cadeiryddion y CLID. Roedd y grŵp hwn yn cefnogi cyd-ddibyniaeth a gwneud penderfyniadau traws-raglen ar gyfer yr USC, ond roedd yr holl benderfyniadau, camau gweithredu a risgiau mawr yn cael eu rheoli ar lefel y Bwrdd Gweithredu. Aelodau Cadeiryddion y CLID oedd cadeiryddion y ffrydiau gwaith, arweinwyr polisi a thîm rheoli'r rhaglen.


Er bod y Bwrdd CLID wedi'i sefydlu'n ffurfiol o fis Hydref 2022, a'i fod yn gallu cynghori'r rhaglen, ymgynghori â nhw a gwneud penderfyniadau mewn egwyddor, roedd gwaith yn dal i fynd rhagddo i sefydlu systemau ariannol, ac roedd yr holl benderfyniadau cyllideb / gwariant yn aros gydag USC y rhaglen.

Er mwyn cynorthwyo i wneud penderfyniadau yn ystod y rhaglen, ac i gydnabod y rhanddeiliaid amrywiol, datblygwyd Fframwaith Gwneud Penderfyniadau, yn nodi pa bobl neu grwpiau oedd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau ar wahanol gamau o'r rhaglen.

Mabwysiadodd y rhaglen sefydlu Corff Llais y Dinesydd (CLID) fframwaith rheoli risgiau Llywodraeth Cymru, fel y sefydliad sy'n noddi'r rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys monitro risgiau allweddol yn rheolaidd, a chynlluniau uwchgyfeirio o'r ffrwd gwaith i'r Bwrdd Gweithredu i'r Bwrdd Goruchwyliau Strategol. Roedd Adroddiad Terfynu y Rhaglen Sefydlu CLID (Gorffennaf 2023), a rannwyd gyda Llais, yn manylu ar risgiau agored a ystyriwyd yn barhaus ac a drosglwyddwyd i Llais.

Trwy'r Tîm Gweithredu CLID, gan gynnwys cymorth gyda ffrydiau gwaith a chyllid, cyfrifwyd am y gwariant ar sefydlu'r CLID, a'i ddilysu a'i briodoli rhwng costau rhaglen Llywodraeth Cymru a chostau Bwrdd Llais. Cymeradwywyd y costau a briodolwyd i Fwrdd Llais, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac a adroddir drwy'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon hyn, gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Fel rhan o drefniadau'r rhaglen sefydlu, awdurdodwyd y costau hyn i ddechrau, a rhoddwyd cyfrif amdanynt, drwy Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (NWSSP). Roedd systemau llywodraethu a chyfrifyddu NWSSP ar waith ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Nid oes unrhyw anghysondebau mewn gwariant wedi'u nodi na'u hadrodd hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon.

# Strwythur y Rhaglen Sefydlu CLID



Mae'r Datganiad Llywodraethu yn rhoi crynodeb o'r camau a gymerodd y rhaglen, i ddangos bod y Bwrdd Gweithredu a Llais yn gweithredu yn unol â'r safonau llywodraethu a'r fframwaith safonau ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y dystiolaeth bod y Bwrdd Gweithredu a Llais yn cydymffurfio â'r safonau hyn.

Yr Athro Chris Jones

Uwch Swyddog Cyfrifol, Bwrdd Gweithredu CLID

Swyddog Cyfrifyddu, Llais

Dyddiad: 22 Tachwedd 2023

Yn seiliedig ar y sicrwydd uchod gan y cyn Swyddog Cyfrifyddu, ac o'm hadolygiad fy hun o'r materion y mae angen eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu hwn, rwy'n fodlon, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon, bod fframwaith llywodraethu a system rheolaeth fewnol gadarn ar waith.

Alyson Thomas,

Prif Weithredwr, Swyddog Cyfrifyddu, Llais (o 1 Ebrill 2023)

Dyddiad: 22 Tachwedd 2023

## Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Roedd y Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer 2022/23 yn cynnwys llai o ofynion adrodd a datgelu o ran yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol, sy'n adlewyrchu'r ffaith nad oedd Llais yn weithredol yn 2022/23.

Yn ystod y cyfnod sefydlu, reciwiwyd bwrdd cwbl newydd ar gyfer Llais, gan ddefnyddio'r broses penodiadau cyhoeddus, a rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sut y gallai'r bwrdd fod yn fwy gwirioneddol gynrychioliadol o bobl Cymru, ac arwain y sefydliad wrth hyrwyddo cydraddoldeb.

Heblaw am y Prif Weithredwr Dros Dro, nid oedd gan Llais unrhyw aelodau o staff yn 2022/23.

## Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflogau) a hawl i bensiynau

Cyfanswm ffigur unigol o gydnabyddiaeth (yn amodol ar archwiliad)

		Cyflog	Budd-daliadau	Cyfanswm	Dyddiad Penodi
		2022-23 £'000	Pensiwn 2022-23 £'000	2022-23 £'000	
Medwin Hughes	Cadeirydd	0	0	0	1 Ebrill 2022
Alyson Thomas	Prif Weithredwr Dros Dro	25-30	-	25-30	3 Hydref 2022
Grace Quantock	Is-gadeirydd	10-15	0	10-15	6 Mehefin 2022
Bamidele Adenipekun	Aelod Anweithredol	5-10	0	5-10	1 Gorffennaf 2022
Barbara Harrington	Aelod Anweithredol	5-10	0	5-10	1 Gorffennaf 2022
Jack Evershed	Aelod Anweithredol	5-10	0	5-10	1 Gorffennaf 2022
Jason Smith	Aelod Anweithredol	5-10	0	5-10	1 Gorffennaf 2022
Karen Lewis	Aelod Anweithredol	5-10	0	5-10	1 Gorffennaf 2022
Rajan Madhok	Aelod Anweithredol	5-10	0	5-10	1 Gorffennaf 2022

Ar adeg cyhoeddi'r cyfrifon, nid oedd y ffigyrâu buddion pensiwn ar gael gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG. Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr yn 2022-23 oedd £0-5k.

Mae'r tabl Cydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â'r cyfnod rhan o flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023. Byddai'r gydnabyddiaeth ariannol gyfwerth â blwyddyn gyfan fel a ganlyn:

- Prif Weithredwr Dros Dro £110k-£115k
- Cadeirydd £15k-£20k
- Is-gadeirydd £10k-£15k
- Aelod Anweithredol £5k-£10k

Ar gyfer 2022/23, anfonebwyd cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion drwy Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Roedd y gost gros yn cynnwys TAW anadferadwy. Mae'r costau staff a nodir yn y datganiadau ariannol yn cynnwys y TAW anadferadwy, tra bod y tabl Cydnabyddiaeth Ariannol yn net o TAW.

Ar gyfer 2022/23, gwrthododd y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol y cadeirydd, oherwydd iddo gael ei gyflogi fel Is-ganghellor, Prifysgol Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro yn gyflogai i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys am 12 mis cyfan 2022/23. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd CICau am chwe mis cyntaf 2022/23, roedd 100% o'r costau i'w priodoli i'r Bwrdd CICau. Am ail chwe mis 2022/23, roedd hi'n Brif Weithredwr y Bwrdd CICau ac yn Brif Weithredwr Dros Dro Llais. Y penodiad fel Prif Weithredwr Dros Dro o 3 Hydref 2022 i raddfa gyflog USG10 ar gyfer Cyflogau Uwch Swyddogion a Phrif Swyddogion (USG). Felly, am y chwe mis diwethaf, yn fras roedd 50% o'r costau i'w priodoli i Llais (gan gynnwys addasiad ar gyfer cyfrifoldebau ychwanegol).

Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro yn aelod o gynllun pensiwn y GIG. Mae Llais wedi ymuno â chynllun pensiwn y GIG a bydd staff yn trosglwyddo ar 1 Ebrill 2023, o'r hen Fwrdd CICau a'r CICau, sy'n aelodau o'r cynllun, yn parhau i fod yn aelodau o'r cynllun. Os bydd staff yn ymuno â chynllun pensiwn y GIG, bydd Llais, fel y cyflogwr, yn cyfrannu 20.6% tuag at eu pensiwn.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn, sy'n cyfrannu at y ffigwr cyfanswm sengl, yn cael ei gyfrif mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan actiwariaid. Mae gwerth buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrif fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant, nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawl i bensiybau.

Nid yw hwn yn swm sydd wedi ei dalu i unigolyn gan Llais yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigyrâu hyn e.e. newidiadau yng nghyflwyni person, p'un ai yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflwyni peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd.

**Budd-daliadau Pensiwn (Yn amodol ar archwiliad)**

	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2023	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar 31 Mawrth 2023	Cyfanswm cyfandaliad cronedig ar 31 Mawrth 2023	Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol mewn cyfandaliad ar 31 Mawrth 2023	GTCA ar 31 Mawrth 2023	GTCA ar 31 Mawrth 2022	Cynnydd/(gostyngiad) gwirioneddol yn GTCA ar 31 Mawrth 2023
Alyson Thomas <b>Prif Weithredwr Dros Dro</b>	£'000 15-20	£'000 -	£'000 -	£'000 -	£'000 264	£'000 -	£'000 -

Ar adeg cyhoeddi'r cyfrifon, nid oedd ffigyrâu pensiwn llawn ar gael gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r Prif Weithredwr Dros Dro yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn y GIG.

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a aseswyd yn actiwaraid, a gronnyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a brisiwyd yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'n daliad a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion pensiwn y mae wedi'u croni yn ei gynllun blaenorol.

Roedd y ffigyrâu pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u croni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigyrâu GTCA a manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnyd i'r aelod o ganlyniad i brynu blynnyddoedd ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir GTCA o fewn y canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid.

Mae'r cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y GTCA yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCA a ariennir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr, gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall, ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin o ddechrau a diwedd y cyfnod.

## **Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd**

### **Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Corff Llais y Dinesydd dros lechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru (a elwir yn Llais) am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lif Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac a addaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i ym mhob agwedd faterol, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Llais ar 31 Mawrth 2023 ac o'i wariant net, am y flwyddyn yna ddod i ben;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

### **Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwys o at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli nhw.

### **Sail ar gyfer barn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrrf y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y

Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

## **Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Mabwysiadir sail gynyddol cyfrifyddu Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail gynyddol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## **Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynnyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a rhannau o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth a archwilar, ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynnyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Deddf Addysg (Cymru) 2020.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- bod y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020; a
- Mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod y gwaith archwilio, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Atebolrwydd (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu).

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol na rhan archwiliedig yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch taliadau cydnabyddiaeth a thrafodiadau eraill; neu
- rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM yn cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Phobl i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddol; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## **Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol**

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifeg, mae'r Swyddog Cyfrifeg yn gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynnyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynnyddol a'r datganiadau ariannol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu diwygio fel y bo'n briodol yn penderfynu yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- asesu gallu'r Llais i barhau fel pryder parhaus, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â phryder parhaus a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifeg yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Llaisyn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## **Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf lechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol yngylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhwngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor mewn cysylltiad â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau; ac
- ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cylchgronau anarferol a thwyll trwy wrth-wneud rheolaethau;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith y Cyngor yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwytio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cyngor.
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a wneir wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd posibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleoù cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau'r Cyngor, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## **Cyfrifoldebau archwilydd eraill**

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwys o at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am llywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhliith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## **Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ynghylch y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton	1 Cwr y Ddinas
Archwilydd Cyffredinol Cymru	Stryd Tyndall
27 Tachwedd 2023	Caerdydd CF10 4BZ

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfeithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llais sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfeithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

	Nodyn	2022-23 £'000
<b>Gwariant</b>		
Costau staff	2	110
Gwariant Gweithredu Arall	3	22
 Cyfanswm Gwariant Gweithredu	 	 132
 <b>Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn</b>	 	 132

Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau'r Bwrdd.  
Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig yn 2022-23  
Mae Llais yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru.

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

	31 Mawrth 2023		
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Asedau di-gyfredol:</b>			
Eiddo ac Offer	-		
Asedau anniriaethol	-		
<b>Cyfanswm asedau di-gyfredol</b>			
 <b>Asedau Cyfredol:</b>			
Masnach a derbyniadau eraill	4	-	
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	5	0	
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>			0
 <b>Cyfanswm asedau</b>			<hr/> 0
 <b>Rhwymedigaethau cyfredol:</b>			
Masnach a bethau taladwy eraill	6	(21)	
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>			(21)
 <b>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</b>			<hr/> (21)
 <b>Rhwymedigaethau di-gyfredol</b>			
Darpariaethau	-		
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau di-gyfredol</b>			-
 <b>Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau</b>			<hr/> (21)
 Ecwiti trethdalwyr			(21)
 <b>Cronfa wrth gefn cyffredinol</b>			<hr/> (21)

Alyson Thomas

Prif Weithredwr, Swyddog Cyfrifyddu (o 1 Ebrill 2023)

Dyddiad: 22 Tachwedd 2023

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Datganiad Llif Arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

Nodyn	31 Mawrth 2023 £'000
<b>Llif arian o weithgareddau gweithredol</b>	
Gwariant net	(132)
Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol	-
(Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	-
Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill	21
<b>All-lif arian net o weithgareddau gweithredol</b>	<b>(111)</b>
<b>Llif arian o weithgareddau buddsoddi</b>	
Prynu eiddo ac offer	-
Prynu asedau anniriaethol	-
<b>All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi</b>	<b>0</b>
<b>Llif arian o weithgareddau ariannu</b>	
Cyllid gan Lywodraeth Cymru	111
<b>Ariannu net</b>	<b>111</b>
<b>Cynnydd/(gostyngiad) net mewn cyfwerth ag arian parod yn y cyfnod</b>	<b>(0)</b>
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod</b>	<b>0</b>
<b>Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod</b>	<b>(0)</b>

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023:

Cronfa Gyffredino	1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023 £'000
Balans ar 1 Ebrill	0
Gwariant net	<u>(132)</u>
Cyfanswm incwm a gwariant cydnabyddedig	<u>(132)</u>
 Cyllid gan Lywodraeth Cymru	 111
 <b>Balans ar 31 Mawrth</b>	 <b><u>(21)</u></b>

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Nodiadau i'r Cyfrifon

#### 1. Datganiad o Bolisiau Cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon Llywodraeth Cymru a Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth 2022-23 (FreM). Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwysio Safonau Adrodd Ariannol Rhwngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehongliwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Pan fo'r FreM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llais at ddiben rhoi barn wir a theg. Disgrifir isod y polisiau penodol a fabwysiadwyd gan Llais. Maent wedi cael eu cymhwysio'n gyson wrth ddelio ag eitemau sy'n cael eu hystyried yn ddeunydd i'r cyfrifon.

##### 1.1 Confensiwn Cyfrifeg

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi ar sail cronfeydd o dan y confensiwn costau hanesyddol.

##### 1.2 Incwm, Cyllid a Gwariant

Mae'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer Llais yn dod o Lywodraeth Cymru drwy ddyraniad cyllid blynnyddol.

Mae sail croniadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrifo yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid pan wneir neu pan dderbynir taliadau arian parod.

Gwariant yw'r hyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau Llais.

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod y dyraniad cyllid ar gyfer 2022/23 yn £132k, gyda £111k o arian parod yn cael ei

Gan fod dyraniad cyllid yn cyfateb i wariant, cyflawnodd Llais ei rwymedigaethau ariannol i sicrhau nad oedd gwariant net yn fwy na'r dyraniad adnoddau refeniu net

##### 1.3 Pensiynau

Mae Prif Weithredwr Llais a staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gymwys i gael aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG. Mae'r cynllun yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG a chyflogwyr eraill, Practisau Meddygon Teulu a chyrrf eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r cynllun wedi'i gynllunio i gael ei redeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi'r GIG a chyrrf eraill i nodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun. Felly, cyfrifir am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: cymerir bod y gost i'r corff o gymryd rhan yn y cynllun yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifvddu.

##### 1.4 Budd-daliadau Gweithwyr

Mae cyflogau a chyfraniadau yswiriant gwladol ar gyfer gweithwyr presennol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth i wasanaethau'r gweithwyr gael eu darparu. Mae Llais yn cyfrif am wyliau blynnyddol â thâl fel rhwymedigaeth lle mae'r iawndal am absenoldeb i'w setlo o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r gweithwyr yn darparu'r gwasanaeth ynddo.

##### 1.5 TAW

Nid yw Llais wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. Adroddir am yr holl wariant yn cynnwys TAW lle bo'n berthnasol, gan fod TAW yn anadferadwy.

##### 1.6 Arian Parod ac Arian Cyfwerth

Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys yr holl arian a gedwir mewn cyfrifon y mae gan Llais fynediad atynt ar unwaith. Caiff cronfeydd eu tynnu i lawr i'r cyfrif banc i dalu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Nodiadau i'r Cyfrifon

#### 2. Mae costau staff yn cynnwys:

	2022-23		
	Staff Parhaol £'000	Staff Amodol £'000	Cyfanswm costau staff £'000
Cyflogau	100	-	100
Costau Nawdd Cymdeithasol	5	-	5
Costau Pensiwn Eraill	5	-	5
<b>Cyfanswm costau net</b>	<b>110</b>	-	<b>110</b>

#### Nodyn

Aelodau'r Bwrdd wedi'u cynnwys yng nghostau Staff Parhaol

Mae'r costau'n cynnwys ôl-ddyledion cyflog y Prif Weithredwr a dalwyd yn 2023/24

# Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 3. Gwariant Gweithredu Arall

Mae gwariant gweithredol arall yn cynnwys:

	Nodyn	2022-23 £'000
<b>Gwariant Gweithredol</b>		
Eiddo rhent o dan brydlesi gweithredol		-
Costau llety eraill		-
Technoleg gwybodaeth		-
Ffioedd proffesiynol		-
Hyfforddiant a datblygu		-
Teithio a chynhaliaeth		1
Ffioedd archwilio — Archwiliad mewnol		-
Ffioedd archwilio — Archwiliad allanol		20
Rhaglenni Penodol		-
Treuliau gweinyddol eraill		<u>1</u>
		<u>22</u>

#### Eitemau anariannol:

Dibrisiant	-
Amorteiddio	-
Darpariaeth	-
	—————
<b>Cyfanswm</b>	<b><u>22</u></b>

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Nodiadau i'r Cyfrifon

#### 4. Masnach a derbyniadau eraill

31 Mawrth 2023  
£'000

##### Asedau Cyfredol:

Masnach a derbyniadau eraill: -

Cyfanswm masnach a derbynyddion eraill

0

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Nodiadau i'r Cyfrifon

#### 5. Arian Parod ac Arian Cyfwerth

	<b>2022-23</b> <b>£'000</b>
Balans ar 1 Ebrill	-
Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod	0
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>0</b>
Cynhaliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:	
Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw	0
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>0</b>

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Nodiadau i'r Cyfrifon

#### 6. Symiau taladwy/croniadau masnach

31 Mawrth 2023  
£'000

##### Rhwymedigaethau cyfredol:

Symiau masnach taladwy	-
Symiau taladwy a cronfeydd eraill	
Croniadau cyflog	1
Archwilio Cymru	20
<b>Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill</b>	<b>21</b>

## Datganiadau Ariannol Llais 2022/23

### Nodiadau i'r Cyfrifon

#### 7. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn 2022-23, derbyniodd Llais arian parod o £111k gan Lywodraeth Cymru, yn erbyn dyraniad cyllid a gadarnhawyd o £132k.

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried yn barti cysylltiedig.

Yn ystod 2022-23, nid oedd Prif Weithredwr, Cadeirydd nac unrhyw Aelodau Anweithredol eraill Llais, nac unrhyw un o'u teuluoedd, yn ymwneud yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol mewn unrhyw drafodion gyda Llais yn ystod y flwyddyn, ar wahân i daliadau cyflog arferol a hawliadau traul.

#### 8. Digwyddiadau Ar ôl y Cyfnod Adrodd

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn digwydd rhwng diwedd y flwyddyn a chymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 22 Tachwedd 2023 gan Alyson Thomas



Eich llais chi mewn | Your voice in health  
iechyd a gofal and social care

# Annual Report and Accounts

## 2022-23

## **Contents**

<b>Performance Report</b>	<b>3</b>
<b>Accountability Report</b>	<b>7</b>
Corporate Governance Report	
• Directors' Report	7
• Statement of Accounting Officer's Responsibilities	12
• Governance Statement	14
Remuneration Report	18
The Certificate and independent auditor's report of the Auditor General for Wales to the Senedd	22
 <b>Financial Statements</b>	
• Statement of Comprehensive Net Expenditure	28
• Statement of Financial Position (the balance sheet)	29
• Statement of Cash Flows	30
• Statement of Changes in Taxpayer's Equity	31
Notes to the Accounts	32

## **Annual Report and Accounts**

The Annual Report and Accounts have been prepared in accordance with the Welsh Government Accounts Direction and the 2022-23 Government Financial Reporting Manual (FrM). The Accounts Direction for 2022/23 included reduced reporting and disclosure requirements reflecting that Llais was not operational in 2022/23.

## **Performance Report**

### **Overview**

